**Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol HSS-02-00(p.2)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Iau 27 Ionawr 2000 |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 2, Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| **Teitl:** | Strategaeth Iechyd Meddwl Oedolion |

**Diben**

1. Mae’r Pwyllgor wedi gofyn am adroddiad ar gynnydd y gwaith a wneir i lunio Strategaeth ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion Cymru-gyfan.

**Crynodeb**

2. Y ddogfen amgaeedig (Atodiad 1) yw drafft diweddaraf y Strategaeth a luniwyd gan y grwp ymgynghorol arbenigol annibynnol, ac fe’i cyflwynir fel y brif ddogfen i fynd â’r drafodaeth yn ei blaen. Nid yw hwn yn ddrafft terfynol. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ymchwilio rhai o’r prif faterion ymhellach a bydd angen ymgorffori unrhyw newidiadau sy’n deillio o’r drafodaeth yn y Pwyllgor a sylwadau swyddogion y Cynulliad a chynghorwyr iechyd. Unwaith y daw’r gwaith hwnnw i ben, bydd yna broses ymgynghori o 3 mis i bawb sydd â diddordeb cyn llunio dogfen derfynol y Strategaeth. Felly, dylid edrych ar y strategaeth hon fel gwaith cynnar sydd ar droed, ac y gallai gael ei diwygio’n sylweddol dros amser.

**Amseru**

3. Da o beth fyddai cael sylwadau’r Pwyllgor ar **fyrdwn cyffredinol** y ddogfen yn fuan. Byddai hyn yn golygu y gellid llunio fersiwn mwy graenus i gychwyn y broses ymgynghori.

**Cefndir**

4. Caiff y gwaith ei wneud gan Grwp Ymgynghori aml-ddisgyblaethol o dan gadeiryddiaeth Yr Athro Glyn Lewis o Goleg Meddygaeth Prifysgol Cymru. Amgaeir manylion curriculum vitae Yr Athro Lewis yn Atodiad 2 a cheir rhestr gyflawn o aelodau’r Grwp Ymgynghori yn Atodiad 3.

5. Cychwynnwyd ar waith y grwp yn mis Mai 1999. Er bod peth gwaith eto i’w gwblhau, mae cryn gynnydd wedi’i wneud ac efallai y bydd drafft terfynol ar gael ar gyfer ymgynghori pellach erbyn diwedd mis Ebrill 2000, yn amodol ar unrhyw waith ychwanegol sy’n deillio o drafodaeth y Pwyllgor a gwaith pellach y swyddogion.

6. Er mwyn cael gwasanaethau iechyd meddwl da, mae angen cydweithrediad clos rhwng nifer o

asiantaethau yn y maes statudol a gwirfoddol. Mae'r Grwp Ymgynghori'n cynnwys cynrychiolwyr o'r rhain. Mae'r Grwp wedi ceisio cynhyrchu Strategaeth gynhwysol sy'n cydnabod amcanion a dyheadau pob grwp. Gwnaed ymdrech fawr i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon a roddir gerbron y Grwp gan faes ehangach ac ymdrin ag unrhyw broblemau o'r fath mewn ffordd uniongyrchol a chydweithredol.

**Ystyriaeth**

7. Mae'r Grwp wedi llunio Strategaeth ar sail y 4 prif egwyddor sef tegwch, effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a grymuso. Mae wedi pwysleisio fod angen gwaith rhyng-asiantaethol effeithiol, nid yn unig rhwng gwasanaethau iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol, ond hefyd gyda'r sector gwirfoddol a chyda'r asiantaethau tai a chyflogaeth. Mae'n gosod rôl y defnyddwyr a'r cynhalwyr wrth wraidd y Strategaeth ac yn mynnu y dylai'r rolau hyn fod yn rhai gwirioneddol ac wedi'u strwythuro.

8. Mae angen clir hefyd i'r Strategaeth gysylltu â rhaglenni eraill y Llywodraeth, er enghraifft, cynhwysiant cymdeithasol, mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau, arolwg o'r Ddeddf Iechyd Meddwl a gwaith yn ymwneud â salwch personoliaeth peryglus. Yn yr un modd, mae'r Strategaeth yn bwriadu cydfynd gyda gweithdrefnau llywodraethu gwell o fewn yr NHS a llywodraeth leol.

9. Mae'r Strategaeth yn clustnodi'r angen i gryfhau'r gwasanaethau cyfredol a rhoi gwell hyfforddiant i staff ym mhob sector.

**Cydymffurfio**

10. Bydd y gwaith o weithredu polisi sy'n llywodraethu'r gwasanaethau iechyd meddwl o fewn yr NHS yng Nghymru yn nwylo'r Cynulliad.

**Goblygiadau ariannol**

11. Mae'r Grwp wedi gwneud cynigion ar gyfer lefel y cyllid y disgwylir y bydd ei angen, yn bennaf, drwy feincnodi'r lefel sydd ar gael yn Lloegr. Bydd angen i'r Cynulliad ystyried ai dyma'r dull gorau, o gadw sefyllfa bresennol gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru mewn cof. Yng nghyd-destun y Cylch Cynllunio Cyllideb nesaf a'r paratoadau ar gyfer cynnal yr Arolwg Cynhwysfawr o Wariant, bydd angen ystyried y cyfle i fuddsoddi yn y gwasanaethau iechyd meddwl a'r flaenoriaeth y dylid ei rhoi i hyn.

**Materion i'r Pwyllgor Pwnc weithredu arnynt**

12. Nodi'r drafft diweddaraf a'i gymeradwyo ar gyfer ymgynghori pellach yn amodol ar sylwadau y mae'r Pwyllgor am eu gwneud neu ddiwygiadau drafftio a wnaed gan y Grwp Ymgynghori ers cyflwyno'r drafft hwn.

**Cyswllt**

13. Am fanylion pellach, cysylltwch â John Sweeney, Adran Iechyd Sylfaenol a Chymunedol neu Dr Sarah Watkins, Gweithwyr Iechyd Proffesiynol.

---

**ATODIAD**

Nid yw'r cyfieithiad Cymraeg ar gael ar hyn o bryd.